**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Council Chamber - Guildhall, Swansea**

**Dydd Iau, 18 Tachwedd 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | R Francis-Davies | L S Gibbard |
| D H Hopkins | A S Lewis | R V Smith |
| A H Stevens | M Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): C A Holley, A Pugh, L J Tyler-Lloyd, W Thomas

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): -

---

## 64. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr A Pugh a Mark Thomas gysylltiad personol â Chofnod 72 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol".

2) Datganodd y Cynghorwyr R Francis-Davies a D H Hopkins gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 72 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a gadawsant y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried.

3) Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 72 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a dywedodd ei fod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

4) Datganodd y Cynghorwyr M C Child, R Francis-Davies, A S Lewis a R C Stewart gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 73 "Prydles arfaethedig i Gyngor Cymuned y Mwmbwls dan y Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol" a gadawsant y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried.

5) Datganodd y Cynghorydd Mark Thomas gysylltiad personol â Chofnod 79 “Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu – Adroddiad Rheoli i roi’r diweddaraf ar Faes Awyr Abertawe” a Chofnod 80 “Adroddiad Rheoli i roi’r diweddaraf ar Faes Awyr Abertawe”.

6) Datganodd y Cynghorydd A H Stevens gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 79 “Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu – Adroddiad Rheoli i roi’r diweddaraf ar Faes Awyr Abertawe” a chofnod 80 “Adroddiad Rheoli i roi’r diweddaraf ar Faes Awyr Abertawe” a gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried.

## 65. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021.

## 66. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### a) Parc Sglefrio. Datganiad o Gysylltiadau

Dywedodd Arweinydd y Cyngor na fyddai'n cymryd rhan yn yr eitem oedd ar ddod yn ymwneud â Pharc Sglefrio'r Mwmbwls, yn dilyn cyngor gan y Swyddog Monitro.

## 67. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Cyflwynodd Jason Williams cwestiwn mewn perthynas â Chofnod 73 "Prydles Arfaethedig i Gyngor Cymuned y Mwmbwls dan y Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol".

Ymatebodd y Cynghorydd David Hopkins.

## 68. Hawl i holi cynghorwyr.

Cyflwynodd y Cynghorwyr L R Tyler-Lloyd a Will Thomas cwestiwn mewn perthynas â Chofnod 73 "Prydles Arfaethedig i Gyngor Cymuned y Mwmbwls dan y Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol".

Ymatebodd y Cynghorydd David Hopkins.

## 69. Newid yn yr Hinsawdd - Y Diweddaraf am Gynnydd

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn dilyn yr Adroddiad "Datganiad Argyfwng Hinsawdd – Adolygiad Polisi a Chamau Gweithredu Arfaethedig" i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2020.

**Penderfynwyd**:

1) Cymeradwyo’r cynnig i ehangu'r gwaith i gynnwys Newid yn yr Hinsawdd a Natur a newidiadau dilynol i lywodraethu.

2) Cymeradwyo’r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a Natur 2021-2030 (Atodiad 2 yr adroddiad) a dylid dirprwyo awdurdod i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor (Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau) ynghyd â'r Cyfarwyddwr Lleoedd i wneud newidiadau pellach.

3) Cymeradwyo’r gwaith cefnogi pellach sydd ei angen i ddatblygu'r Strategaeth tymor hwy ac ymdrechu tuag at garbon sero-net erbyn 2050 ar gyfer Abertawe.

4) Datblygu’r gwaith i barhau i adrodd am allyriadau drwy'r cyngor Cymeradwyo’r fethodoleg cyfrifo allyriadau carbon gyda'r goblygiadau cysylltiedig a nodir yn yr adroddiad.

## 70. Strategaeth Toiledau Cyhoeddus Abertawe: Adroddiad cynnydd.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Strategaeth Toiledau Cyhoeddus Abertawe a'r cynnydd ar y cynllun gweithredu.

**Penderfynwyd**:

1) Cymeradwyo Strategaeth Toiledau Cyhoeddus Abertawe.

2) Nodi'r cynnydd hyd yma a chymeradwyo'r camau gweithredu ar gyfer cyflawni yn y dyfodol a dirprwyir awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd ac Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd i ddiwygio neu newid y cynllun cyflawni.

## 71. Cymeradwyo'r cytundeb cyfreithiol ar gyfer y bartneriaeth addysg ranbarthol newydd

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y cytundeb cyfreithiol i sefydlu partneriaeth addysg ranbarthol newydd.

**Penderfynwyd**:

1) Cymeradwyo'r cytundeb cyfreithiol drafft (sydd wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad) i sefydlu cyd-bwyllgor ar gyfer partneriaeth addysg ranbarthol newydd a adwaenir fel y Bartneriaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni gwelliannau i ysgolion.

2) Cymeradwyo penodiad Arweinydd y Cyngor fel aelod o'r cyd-bwyllgor.

3) Dirprwyo'r swyddogaethau hynny sy'n angenrheidiol i gefnogi'r gwaith i wella ysgolion yn ardal y cyngor a'r rhanbarth, gan gydnabod a derbyn y bydd y cyngor a'r awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth yn cadw cyfrifoldeb statudol am berfformiad ysgolion, ynghyd â'r cyfrifoldeb dros arfer pwerau statudol, ymyrryd a threfnu ysgolion yn eu priod feysydd i'r cyd-bwyllgor.

4) Cymeradwyo sefydlu Grŵp Cynghorwyr Cyd-bwyllgor Craffu ar sail y cylch gorchwyl a nodir yn y cytundeb cyfreithiol fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

5) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Addysg mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyfreithiol ac Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau i wneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol pellach i'r cytundeb cyfreithiol ac awdurdodi'r Prif Swyddog Cyfreithiol i ymrwymo i'r cytundeb ar ran y cyngor ynghyd ag unrhyw ddogfennau cyfreithiol ategol sy'n angenrheidiol i hwyluso'r gwaith o greu a gweithredu'r bartneriaeth newydd.

6) Cymeradwyo'r ddarpariaeth gwasanaethau gan y Bartneriaeth i gynghorau nad ydynt yn bartïon i'r cytundeb cyfreithiol, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys yn unol â chymal 14 y cytundeb cyfreithiol gydag awdurdod wedi'i ddirprwyo i Gyd-bwyllgor y Bartneriaeth i gytuno ar y telerau y mae gwasanaethau o'r fath i'w darparu’n unol â hwy.

## 72. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Ysgol Gynradd Blaenymaes | Y Cynghorydd Hazel Morris<br>Y Cynghorydd June Burtonshaw |
| 2. | Ysgol Gynradd Clydach | Mair Lewis |
| 3. | Ysgol Gynradd Gendros | Morrison Frew |
| 4. | Ysgol Gynradd Grange | Christine May |
| 5. | Ysgol Gynradd yr Hafod | Kirsty Rees |
| 6. | Ysgol Gynradd Llan-y-tair-mair | Kathryn David |
| 7. | Ysgol Gynradd Parkland | Dr Mohsen Elbeltagi |
| 8. | Ysgol Gynradd Penclawdd | Sarah Hopkins |
| 9. | Ysgol Gynradd Pentrechwyth | Mandy Evans |
| 10. | Ysgol Gynradd Plasmarl | Kirsty Rees |
| 11. | Ysgol Gynradd Talycopa | Rebecca O'Brien |
| 12. | YGG Llwynderw | Emma Beynon |

| | | |
|---|---|---|
| 13. | YGG Lôn Las | Y Parch Eirian Wyn |

## 73. Prydles arfaethedig i Gyngor Cymuned y Mwmbwls dan y Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i gyd-drafod Penawdau Telerau a chytuno arnynt ac ymrwymo i brydles gyda Chyngor Cymuned y Mwmbwls ar gyfer tir yn Llwynderw at ddiben adeiladu a rheoli parc sglefrio newydd ar y safle.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi'r ymatebion i ganlyniadau'r broses ymgynghori o dan ddeddfwriaeth mannau agored cyhoeddus a gynhaliwyd mewn perthynas â'r tir a nodwyd yn Atodiad A (cynllun safle) yr adroddiad. Darparu copi llawn o'r ymatebion a gafwyd, a phob un o'r rhai sy'n gwrthwynebu, yn cefnogi neu'n darparu sylw niwtral fel Atodiad F o'r adroddiad, a darparu crynodeb cyffredinol yng nghorff yr adroddiad.

2) Cymeradwyo'r bwriad i werthu'r tir i Gyngor Cymuned y Mwmbwls ar lefel o danbrisio sy'n dderbyniol i'r Cabinet ac yn seiliedig ar gyngor Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo. Dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Eiddo gyd-drafod a phenderfynu ar delerau'r brydles arfaethedig y tir a nodir yn Atodiad A (cynllun safle) yr adroddiad a dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Cyfreithiol er mwyn cwblhau'r ddogfennaeth gyfreithiol.

3) Gwneud gwelliannau i'r safle yn unol â'r cyfeirnod caniatâd cynllunio cysylltiedig 2019/2345/FUL a roddwyd ar 13 Chwefror 2020 ar gyfer gosod Parc Sglefrio newydd ym Mharc Sglefrio West Cross, Mumbles Road, Blackpill, Abertawe.

## 74. Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r Grant Gwella 2020/21 - trosglwyddo'r gyllideb.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn darparu manylion y Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r Grant Gwella yn 2021-22 a gofynnodd am gymeradwyaeth i drosglwyddo'r gyllideb o'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA) i Gronfa Gyffredinol Cyfalaf y Cyngor a'r Grant Mân Addasiadau ac o gyllideb Grant Tasglu'r Cymoedd i gyllideb Grant Cymoedd y Gorllewin. Cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf), i ymrwymo ac awdurdodi cynlluniau yn ôl y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd** :

1) Cymeradwyo trosglwyddo £1,210,000 o gyllideb y Grant Cyfleusterau i'r Anabl i Gronfa Gyfalaf Gyffredinol y Cyngor.

2) Cymeradwyo trosglwyddo £307,000 o'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl i gyllideb y Grant Mân Addasiadau.

3) Cymeradwyo trosglwyddo £105,000 o gyllideb Grant Cartrefi Gwag Tasglu'r Cymoedd i gyllideb Cartrefi Gwag Tasglu Cymoedd y Gorllewin.

## 75. Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2020/21.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Busnes a Pherfformiad adroddiad gwybodaeth a gyflwynodd adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 76. Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Grant Diogelwch Ffyrdd 2021/22

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cadarnhau’r dyraniad grant Diogelwch Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru a chynnwys y gwariant yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021/22.

**Penderfynwyd**:

1) Cadarnhau’r dyraniad grant Diogelwch Ffyrdd o £219,100 a bydd y gwariant yn cael ei gynnwys yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021/22.

## 77. Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau 2021/22

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cadarnhau’r dyraniad grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau gan Lywodraeth Cymru a chynnwys y gwariant yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021/22.

**Penderfynwyd**:

1) Cadarnhau’r dyraniad grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau o £283,200 a bydd y gwariant yn cael ei gynnwys yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021/22.

## 78. Gwahardd y cyhoedd: -

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 79. Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu - Update Management Report on Swansea Airport. (Llafar)

Darparodd y Cynghorydd C A Holley yr adborth cyn penderfynu mewn perthynas â'r Adroddiad Rheoli ar Faes Awyr Abertawe.

## 80. Adroddiad Rheoli i roi'r diweddaraf ar Faes Awyr Abertawe.*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgareddau rheoli ystadau presennol ym Maes Awyr Abertawe.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

## 81. Dyfarnu contract i drin/gael gwared ar wastraff anailgylchadwy.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd, adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i ddyfarnu contract tymor canolig ar gyfer trin a gwaredu gwastraff na ellir ei ailgylchu (mewn sachau du).

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.21 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 18 Tachwedd 2021 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 23 Tachwedd 2021 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 24 Tachwedd 2021 |